## HYSBYSIAD PREIFATRWYDD DATA CYNGOR SIR FYNWY

**Cyfarwyddiaeth:** Menter

**Gwasanaeth:** Amgueddfeydd MonLife

**Manylion Cyswllt:** dataprotection@monmouthshire.gov.uk

**Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:** **Rheoli Gwirfoddolwyr Amgueddfeydd**

# Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

Mae Cyngor Sir Fynwy wedi cael y categorïau canlynol o'ch data personol:

- Manylion Cyswllt
- Gwybodaeth am Ffordd o Fyw
- Cofnodion iechyd

**Ffynhonnell eich data personol**
Os hoffech ragor o wybodaeth am ffynhonnell y wybodaeth hon, cysylltwch â Chyngor Sir Fynwy. Efallai y bydd gofyn i chi wneud cais am y wybodaeth hon fel Cais Mynediad Pwnc.

## Pwrpas a sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth

**Ein rhesymau cyfreithiol dros ddefnyddio'ch gwybodaeth:**
Rydym yn dibynnu ar eich caniatâd penodol i brosesu eich gwybodaeth bersonol

## Eich hawl i dynnu'ch cydsyniad yn ôl

Mae gennych yr hawl i dynnu'n ôl eich cydsyniad ar gyfer prosesu'r wybodaeth hon. I dynnu'n ôl eich caniatâd, cysylltwch â'r Man Gwasanaeth sydd â'i manylion wedi'u nodi ar frig y ddogfen hon.

## Pwy fydd yn cael mynediad at eich gwybodaeth?

Y Rheolydd Data ar gyfer eich gwybodaeth yw Cyngor Sir Fynwy.
E-bost: dataprotection@monmouthshire.gov.uk

Efallai y bydd Rheolwyr Data Eraill hefyd yn gyfrifol am eich gwybodaeth, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Cysylltwch â'r Gwasanaeth am ragor o wybodaeth.

**Dyma'r adrannau rydym yn rhannu eich data â nhw'n fewnol:**
Amgueddfeydd
Ardal Partneriaeth Gwirfoddoli

**Mae yna amgylchiadau lle mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i rannu'ch gwybodaeth gyda'r canlynol:**

Asiantaethau Gorfodaeth Gyfreithiol y Llywodraeth e.e. gyda'r Heddlu o dan y Ddeddf Atal neu Ganfod Troseddau.

**Ceisiadau am wybodaeth**

Gall yr holl wybodaeth a gedwir gan Gyngor Sir Fynwy fod yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol gan gynnwys unrhyw gyfraith Diogelu Data arall.

Os yw'r wybodaeth a ddarperir gennych yn agored i gais o'r fath, lle y bo'n bosibl, bydd Cyngor Sir Fynwy yn ymgynghori â chi o ran ei datgelu. Os ydych yn gwrthwynebu datgelu'ch gwybodaeth, byddwn yn atal eich gwybodaeth os yw'r ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu hynny.

## Am ba mor hir byddwn yn cadw eich gwybodaeth?

Mae pa mor hir mae Cyngor Sir Fynwy yn cadw gwybodaeth yn cael ei bennu trwy ofynion statudol neu arfer gorau.

Cyfeiriwch at ein hamserlen cadw yma - *Byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol am 3 blynedd. Os yw'r wybodaeth yn ymwneud â thrafodion ariannol byddwn yn cadw'r cofnodion hynny am 7 mlynedd.*

## Eich Hawliau

**Eich hawliau o dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol yw:**

- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl at fynediad
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i gywiro, rhwystro, dileu neu ddinistrio eich gwybodaeth o dan rai amgylchiadau.
- Yr hawl i gyfyngu prosesu
- Yr hawl i hygludedd data
- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i iawndal os yw Cyngor Sir Fynwy yn methu â chydymffurfio â gofynion penodol y Rheoliad Gwarchod Data Cyffredinol mewn perthynas â'ch gwybodaeth.

Am fwy o wybodaeth, ewch i www.ico.org.uk

## Gweithdrefn Gwyno

Os ydych yn gwrthwynebu i'r ffordd y mae Cyngor Sir Fynwy yn trin eich data, mae gennych yr hawl i gwyno. Cysylltwch â'r Gwasanaeth a nodwyd ar frig y ddogfen hon gan amlinellu eich problemau. Dilynwch y ddolen hon http://www.monmouthshire.gov.uk/cy/adborth-ar-wasanaethau i gael rhagor o wybodaeth am y broses gwyno.

Os ydych o hyd yn anhapus, mae gennych hawl i gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth www.ico.org.uk

| | |
|---|---|
| **Rhif Hysbysiad Preifatrwydd:** | MonLifeMU008 |
| **Dyddiad Llunio:** | 08.05.2018 |
| **Dyddiad Cyhoeddi:** | 25.05.2018 |
| **Rhif y Fersiwn:** | 1.1 |